

Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru



South Wales  
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2015 - 2020

Adolygiad 2018

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU RISG

# Tabl Cynnwys

Adran	Tudalen
Cyflwyniad .....	1
Sut y Gwnaethom.....	2
Canfyddiadau'r Adolygiad .....	3
Y Ffyrdd Ymlaen .....	4
Tabl .....	5

## Cyflwyniad

Yn 2015, cyhoeddodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd am y pum mlynedd sy'n dod.

Mae'r pedwar Canlyniad, a restrir isod, yn cipio Dyletswyddau Cyffredinol *Deddf Cydraddoldeb (2010)* yn ogystal â'r Rheoliadau o fewn y Dyletswyddau Penodol Cymreig; noda'r ddwy ddogfen gyfreithiol hyn sut fydd angen i ni fel gwasanaeth cyhoeddus hyrwyddo ac chynnwys cyfartaledd cyfle ym mhopeth y gwnawn.

Amlinella'r Cynllun mewn termau bras, sy'n cychwyn o'r pen, sut y bwriadwn weithio tuag at gwrdd â'r gofynion hynny dros y pum mlynedd nesaf.

**Canlyniad 1:** Mae ein Gweithlu'n amrywiol, yn gydradd ei werth, ac mae gan bawb fynediad i ddatblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol

**Canlyniad 2:** Rydym yn defnyddio Strategaeth Gaffael Cymru a gweithdrefnau i sicrhau y defnyddir prosesau teg a thryloyw i gefnogi BB a Ch lleol a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Canlyniad 3:** Cawn y data cywir/wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir i sicrhau bod y cyfan y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau

**Canlyniad 4:** Bydd ein systemau'n caniatáu monitro ac adrodd amserol o'n dyletswyddau cydraddoldeb sy'n ofynnol yn gyfreithiol

Yn ogystal â darllen yr adolygiad hwn fe'ch annogir i ddefnyddio'r ddolen isod i ymweld ag adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ein gwefan i ddarllen y **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** a'r Adroddiadau Cydraddoldeb ill dau:


Saesneg: <https://www.southwales-fire.gov.uk/en-GB/who-we-are/equality-and-diversity/>

Cymraeg: <https://www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydym-ni/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/>

## Sut y Gwnaethom

Wrth benderfynu ar osodiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, roedd e'n bwysig cychwyn o'r dechrau ac adnabod ein sylfaen. Er mwyn cyflawni hyn, tagiwyd pob Cam Corfforaethol ar draws y Gwasanaeth i un (neu fwy) o ganlyniadau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan y byddai hyn yn caniatáu i ni weld lle'r oeddem yn gwneud newidiadau a hefyd nodi unrhyw fylchau posib.

Yn 2017/18 aliniom bob un o'n 241 tasg ag un o'r Canlyniadau Cydraddoldeb Strategol:




{Info for above graph:

outcome one – canlyniad un, outcome two – canlyniad dau, outcome three – canlyniad tri, outcome four – canlyniad pedwar, total – cyfanswm]

## Canfyddiadau'r Adolygiad

O'r 241 tasgau Corfforaethol hyn, cwblhawyd 174, mae 62 eto ar y gweill a chafodd 5 eu gohirio. Mae hyn yn dangos gwelliant mawr o'i gymharu â chyfnod adolygu y llynedd.



[info for above graph:

**Completed** – Cwblhawyd, **Ongoing** – Parhaus, **Deferred** – Gohiriwyd, **Outcome One** – Canlyniad Un, **Outcome Two** – Canlyniad Dau  
**Outcome Three** – Canlyniad Tri

Taith barhaol yw ymgorffori cydraddoldeb gwirioneddol i bopeth a wna'r Gwasanaeth, ac eleni gwelwyd gwelliannau (sut ydym yn gweithio â chymunedau a throstynt) ynghyd â meysydd a amlygwyd sydd angen mwy o sylw (sut yr ydym yn defnyddio data).

Am ragor o wybodaeth ar yr hyn a wnaethom, a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud, gweler ***Y Cynllun Gwella*** ar:

Saesneg: <https://www.southwales-fire.gov.uk/app/uploads/2018/04/Annual-Equality-Report-2017-2018.pdf>

Cymraeg: <https://www.decymru-tan.gov.uk/app/uploads/2018/04/Cynllun-Gwella-2017-2018.pdf>

*Pe byddai'n well gennych gael copi ar bapur, mae croeso i chi gysylltu â ni.*

## Ffyrdd Ymlaen

Mae meysydd allweddol a fydd yn parhau i ddatblygu'n cynnwys:

- *Sicrhau* yr hyrwyddir cyfleoedd adrannol i'r staff cyfan
- *Argymell* cydymffurfedd ac arfer orau â'n partneriaid
- *Archwilio* ffyrdd gweithiol o ddefnyddio data i wasanaethu a chwrdd ag anghenion amrywiol ein **holl** gymunedau'n well
- *Adeiladu* Canlyniadau Cydraddoldeb yn uniongyrchol i'r Agenda Gwella a'r Themâu Strategol
- *Adolygu* proses Asesu Risg Cydraddoldeb fel y medrwn dargedu adnoddau'n well yn yr hyn a wnawn a pham
- *Egluro* ffyrdd newydd arwyddocaol o gynyddu cynrychiolaeth amrywiol mewn darpariaeth staff a'r gwasanaeth ill dau
- *Parhau* i hyrwyddo, dyrchafu, a sefydlu'n well ein cydberthnasau â grwpiau a wthiwyd i'r cyrion yn hanesyddol

## Tabl

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r Canlyniadau Cydraddoldeb Strategol yn:

- **Cynnwys** y Dyletswyddau Penodol Cymreig
- **Ategu'r** Themâu Strategol Corfforaethol
- **Cynorthwyo** wrth symud Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn ei flaen.

Canlyniad Trosfwaol Corfforaethol CCS	Y Dyletswyddau Penodol Cymreig	Themâu Strategol	Nod(au) Lles Cenedlaethau'r Dyfodol
<b>1. Mae ein gweithlu'n amrywiol, yn gydradd ei werth, ac mae gan bawb fynediad i ddatblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol</b>	Bwlch Cyflog Hyfforddi Staff Gwybodaeth a Data Cyflogaeth	Lleihau Risg Ymgysylltu a Chyfathrebu Cryfhau Partneriaethau	Cymru Hydwyth Cymru Iachach Cymru Fwy Cyfartal Cymru o Gymunedau Cydlynus Diwylliant/Iaith Gymraeg Fyrlymus
<b>2. Rydym yn defnyddio Strategaeth Gaffael Cymru a gweithdrefnau i sicrhau y defnyddir prosesau teg a thryloyw i gefnogi BB a Ch lleol a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth</b>	Caffael	Maethu Adnoddau Cynaliadwy Anwesu Technoleg	Cymru Ffyniannus Cymru Hydwyth Cymru sy'n Rhyngwladol Gyfrifol
<b>3. Rydym yn cael y data cywir/wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir i sicrhau fod y cyfan y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau</b>	Hygyrchedd Data Aseu Effaith Ymgysylltu	Anwesu Technoleg Ymgysylltu a Chyfathrebu Cryfhau Partneriaethau	Cymru Iachach Cymru Fwy Cyfartal Cymru Ffyniannus Cymru o Gymunedau Cydlynus
<b>4. Mae ein systemau'n caniatáu monitro ac adrodd amserol o'n dyletswyddau cydraddoldeb sy'n ofynnol yn gyfreithiol</b>	Adrodd a Chyhoeddi Gosod Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Adroddiad Blynyddol Adolygu	Lleihau Risg	Cymru Fwy Cyfartal





Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

**Gwasanaeth Tân ac Achub**  
De Cymru



South Wales  
**Fire and Rescue Service**

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72-8LX.

e-bost: [amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk](mailto:amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk). [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)